

# Hawdd ei Ddarllen
# Deall sut mae Llais yn helpu i wella iechyd a gofal

LLAIS

Eich llais mewn iechyd a gofal cymdeithasol | Your voice in health and social care

# Beth yw Llais?



- Mae Llais yn gorff llywodraeth. Mae ein gwaith yn annibynnol.



- Rydym yn helpu pobl yng Nghymru i rannu eu syniadau am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



- Rydym yn gwrando ar eich barn ac yn helpu i wneud gwasanaethau'n well.



- Rydym yn eich helpu os oes gennych bryderon.
- Rydym yn sicrhau bod pobl yn gwrando arnoch chi pan fydd gwasanaethau'n newid.

## Sut ydyn ni'n helpu pan fydd gwasanaethau'n newid



- Efallai y bydd y GIG neu'ch cyngor lleol yn bwriadu newid gwasanaethau iechyd neu ofal.



- Mae Llais yn gwrando ar yr hyn rydych chi'n ei feddwl am y newidiadau hyn.
- Rydym yn siarad drosoch chi fel bod pobl yn clywed yr hyn rydych chi'n ei feddwl.

## Rydym yn hyblyg a gallwn helpu'n gyflym



- Mae Llais yn helpu gyda phethau sydd eu hangen fwyaf arnoch chi.



- Rydym yn canolbwyntio ar yr hyn fydd yn gwneud eich gofal yn well.

## Rydym yn cwmpasu iechyd  gofal cymdeithasol



- Mae Llais yn siarad drosoch chi yn y GIG a'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.



- Rydym yn gwirio sut mae gwasanaethau iechyd a gofal yn cydweithio i'ch helpu chi.

## Rydym yn canolbwyntio ar yr hyn sy'n helpu fwyaf



- Rydym yn gwrando arnoch chi ac yn rhannu’ch barn.



- Rydym yn llwyddo pan fydd eich barn yn helpu i wneud gwasanaethau gofal yn well.



## Pryd a sut rydym yn helpu mewn newidiadau gwasanaeth

- **Dim ond un rhan o'n gwaith yw newidi gwasanaethau.**
- **Rydym yn meddwl yn ofalus am faint rydym yn cymryd rhan ym mhob newid.**
- **Rydym hefyd yn sicrhau bod gennym amser ar gyfer ein swyddi eraill.**
- **Fel hyn gallwn helpu pobl yng Nghymru yn y ffordd orau.**

## Sut rydym yn penderfynu cymryd rhan:




- Rydym yn meddwl am faint o bobl fydd yn cael eu heffeithio.




- Rydym yn edrych ar ba mor fawr fydd y newid i bobl.



- Rydym yn gwirio a fydd pobl sydd angen mwy o help yn cael eu heffeithio.



- Rydym yn gwrando i weld a yw pobl yn poeni am y newid.



- Rydym yn darganfod a oes unrhyw broblemau ynghylch diogelwch neu ansawdd.



- Rydym yn gwirio a yw llawer o newidiadau yn digwydd mewn un lle ar yr un pryd.

## Yr hyn y gallwn ei wneud i helpu:



- Mynd i gyfarfodydd.



- Gwirio gwybodaeth gan y GIG neu'r cyngor.



- Siarad â'r GIG neu'r cyngor am y newidiadau.



- Gwrando ar yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym.
- Rhannu beth mae pobl yn ei ddweud i helpu'r GIG neu'r cyngor i wneud penderfyniadau.

## Rhaid i'r GIG ddweud wrthym am newidiadau



- Rhaid i'r GIG ddweud wrth Llais pryd maen nhw'n bwriadu newid gwasanaethau.
- Rhaid i'r GIG wrando ar yr hyn rydym ni'n ei ddweud cyn iddyn nhw benderfynu.

## Mae angen i ni ofyn i gynghorau newidiadau



- Mae angen i ni ofyn i gynghorau am newidiadau gofal cymdeithasol.



- Mae cynghorau yn rhoi gwybodaeth i ni pan fyddwn yn gofyn iddynt.

## Sut allwch chi ein helpu



- Dweud wrthym beth ddigwyddodd pan wnaethoch chi ddefnyddio gwasanaethau iechyd neu ofal.



- Dweud wrthym os ydych chi'n poeni am newidiadau.



- Dweud wrthym beth sy'n bwysig i chi a'ch cymuned.



## Cysylltwch â ni

- Os ydych chi eisiau gwybod mwy am Llais
- Os ydych chi am siarad â ni am wasanaethau iechyd a gofal yn eich ardal

Cysylltwch â ni yn:

Llais
Adialadau'r
Goron
Parc Cathays
Rhodfa'r Brenin Edward VII, Caerdydd,
CF10 3NQ

02920 235 558
enquiries@llaiscymru.org
www.llaiswales.org

**Cofiwch, Llais yw eich llais ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.**
**Rydym ni yma i helpu.**
**Rydym ni am i wasanaethau weithio'n dda i chi.**